# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 3 Rhagfyr 2013**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol **Cymru**
National Assembly for **Wales**

## Agenda
(167)v5

### 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

**Cwestiwn Brys**
**Aled Roberts (Gogledd Cymru):** O ystyried y dirywiad yng nghanlyniadau Cymru mewn perthynas â'r Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr, pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i wella, ar fyrder, y safonau addysg a chyrhaeddiad yng Nghymru?

### 2 Cwestiynau i'r Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon (45 munud)

Gweld y cwestiynau

### 3 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

### 4 Datganiad gan y Gweinidog Tai ac Adfywio: Ymatebion i'r Papur Gwyn "Rhentu Cartrefi" (30 munud)

### 5 Dadl ar egwyddorion cyffredinol y Bil Addysg (Cymru) (60 munud)

**NDM5376 Huw Lewis (Merthyr Tudful a Rhymni)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.11:

Yn cytuno i egwyddorion cyffredinol Bil Addysg (Cymru).

Gosodwyd Bil Addysg (Cymru) a'r Memorandwm Esboniadol gerbron y Cynulliad ar 1 Gorffennaf 2013.

Gosodwyd adroddiad Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ar Bil Addysg (Cymru) gerbron y Cynulliad ar 22 Tachwedd 2013.

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu nad yw rhan 3 wedi ei chynnwys mewn Bil anghenion addysgol arbennig ar wahân i blant a phobl ifanc.

**Dogfennau Ategol**
Bil Addysg (Cymru)
Memorandwm Esboniadol
Adroddiad Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ar Bil Addysg (Cymru)
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol - Adroddiad ar y Bil Addysg (Cymru)

### 6 Cynnig i gytuno ar y penderfyniad ariannol mewn perthynas â Bil Addysg (Cymru) (5 munud)

**NDM5377 Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, at ddibenion unrhyw ddarpariaethau sy'n deillio o'r Bil Addysg (Cymru), yn cytuno i unrhyw gynnydd mewn gwariant o'r math y cyfeirwyd ato yn Rheol Sefydlog 26.69, sy'n codi o ganlyniad i'r Bil.

**7 Dadl Cyfnod 3 o dan Reol Sefydlog 26.44 ar y Bil Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) (60 munud)**

Yn unol â Rheol Sefydlog 26.36, mae'r gwelliannau i gael eu gwaredu yn y drefn y mae'r adrannau a'r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn codi yn y Bil.

**Mae'r gwelliannau wedi cael eu grwpio at ddibenion y ddadl a byddant yn cael eu trafod fel a ganlyn:**

**1. Adolygu gweithrediad y Ddeddf**
4, 1

**2. Trefniadau trosiannol**
6, 7

**3. Cynrychiolaeth ar gyrff llywodraethu**
5, 5A, 3
*Gwelliant 5 yw'r prif welliant yn y grŵp*
*Bydd y gwelliannau hyn yn cael eu gwaredu yn y drefn: 5A, 5, 3*

**4. Ymgynghoriad gan y corff**
8

**5. Colli swyddi**
2

**Dogfennau Ategol**
Bil Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru)
Memorandwm Esboniadol
Rhestr o Welliannau wedi'u Didoli
Grwpio Gwelliannau

**8 Cynnig Cyfnod 4 o dan Reol Sefydlog 26.47 i gymeradwyo y Bil Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) (5 munud)**

Ar ddiwedd Cyfnod 3, caiff y Gweinidog gynnig bod y Bil yn cael ei basio yn unol â Rheol Sefydlog 26.47.

Cynnig Cyfnod 4 o dan Reol Sefydlog 26.47 i gymeradwyo y Bil Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru)

**9 Dadl Cyfnod 3 o dan Reol Sefydlog 26.44 ar y Bil Cyllid y GIG (Cymru) (60 munud)**

Yn unol â Rheol Sefydlog 26.36, mae'r gwelliannau i gael eu gwaredu yn y drefn y mae'r adrannau a'r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn codi yn y Bil.

**Mae'r gwelliannau wedi cael eu grwpio at ddibenion y ddadl a byddant yn cael eu trafod fel a ganlyn:**

**1. Trosolwg**
1

**2. Dyletswyddau ariannol Bryddau Iechyd Lleol**
2

**3. Dyletswyddau Cyllunio Byrddau Iechyd Lleol a Gweinidogion Cymru**
3

**4. Cyflwyno Adroddiadau**
4, 4A, 5, 7, 8
*Bydd y gwelliannau hyn cael eu gwaredu yn y drefn - 4A, 4, 5, 7*

**5. Pŵer i fenthyca**

6

**Dogfennau Ategol**
Bil Cyllid y GIG (Cymru)
Memorandwm Esboniadol
Rhestr o Welliannau wedi'u Didoli
Grwpio Gwelliannau

**10 Cynnig Cyfnod 4 o dan Reol Sefydlog 26.47 i gymeradwyo'r Bil Cyllid y GIG (Cymru) (5 munud)**

Ar ddiwedd Cyfnod 3, caiff y Gweinidog gynnig bod y Bil yn cael ei basio yn unol â Rheol Sefydlog 26.47.

Cynnig Cyfnod 4 o dan Reol Sefydlog 26.47 i gymeradwyo'r Bil Cyllid y GIG (Cymru)

**Cyfnod Pleidleisio**

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mercher, 4 Rhagfyr 2013